# Cyngor Cymuned Glantwymyn

**Nôs Iau, 29ain Ionawr 2015.**

**Presennol.** Cynghorwyr:- Dafydd Evans, A. O. Griffiths, Paul Hughes, D.G.Jones, H.D.Jones, D. Lewis, S.G.Owen, G.Wigley, H.M.Williams, Gwenfair Davies a'r Cyng. Sirol G.P.Fychan.

**Ymddiheuriadau.** Cynghorwyr:- Siôn Ifans, J.P.Jones, W.N.Owen, Mrs Gwen Lloyd a Mrs Ann Williams.

**69. Cofnodion cyfarfod 18fed Rhagfyr 2014.**
Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod uchod a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

**70. Materion yn codi o'r cofnodion.**
Mis Tachwedd.
52. Yn dilyn ymddeoliad Tom Thomas, croesawyd Mr Paul Hughes, Minffordd i'w gyfarfod cyntaf a dymunwyd yn dda iddo fel cynghorydd dros Ward Darowen. Arwyddwyd y ffurflenni priodol gan Paul gyda'r clerc yn dyst i'r llofnod.
44.42.3 Mae cyfarfod wedi ei drefnu ym Mhantperthog ar gyfer nos Iau 5ed Chwefror pryd y disgwylir dau gynrychiolydd o'r Swyddfa Gymreig.
57.2 Toiledau Cemaes. Penderfynwyd fod y clerc yn cychwyn trafodaethau yngyn â dyfodol y toiledau, gan wahodd cynrychiolydd o'r Cyngor Sir i gyfarfod o'r cyngor i egluro mwy.
Eglurodd y clerc ei fod wedi derbyn ymweliad oddi wrth un oedd a diddordeb mewn gofalu am y toiledau pe bai Cyngor Glantwymyn yn eu mabwysiadu. Eglurodd Aled Griffiths ei fod yntau wedi derbyn amcan bris.
58.5. Gwaith da wedi ei wneud ar wella cyflwr yr encilfa ger Mathafarn.
Mis Rhagfyr.
63. Derbyniwyd llythyr o ddiolch oddi wrth Ambiwlans Awyr Cymru.
66.1Mae trafferthion wedi bod ac yn dal i fodoli mewn rhai ardaloedd o fewn y gymuned ynglyn a chasglu sbwriel. Tynnu sylw'r Cyngor Sir at y problemau yn Abercegir, Darowen a Thalywern.

**71. Cynllunio.**
P/2014/1267. Codi adeilad (ol-weithredol) ar dir Ty Capel Seion, Llanwrin. Gwenfair yn datgan ddiddordeb. Nid oedd pawb yn cytuno efo'r cais, ond os oedd o fewn canllawiau'r adran Gynllunio roedd rhaid derbyn eu penderfyniad.
P/2015/0008. Codi ychwanegiad i Gwernstablau, Llanwrin. Cytuno.

**72. Eitemau i'w talu. 73. Cais am arian.**
Nid oedd eitem i'w dalu ac ni dderbyniwyd cais yn ystod y mis.

**74. Gohebiaeth.**
74.1 Arolwg o Heddlu Dyfed/Powys i'w llenwi. Hoffai'r cynghorwyr eglurhad ar hawliau'r cyhoedd i dynnu sylw at y broblem o sbwriel mewn cilfannau ac ar ymyl y ffyrdd.
74.2 Cylchlythyr SARPA.
74.3 Cynllun Datblygu Lleol Powys 2011-2026. Llywodraeth Cymru angen rhagor o dystiolaeth i ategu'r cynllun ar adeg yr ymgynghori. Mae'r sylwadau a dderbyniwyd i'w gael ar y we:
http://www.powys.gov.uk/en/planning-building-control/local-development-plan/.
74.4 Newidiadau yn nhrefn casglu gwastraff clinigol.

**75. Adroddiadau'r Cynrychiolwyr.**

75.1 Adroddiad Hugh o bwyllgor y Ganolfan.Nid yw'r adran iechyd a diogelwch yn cymeradwyo lifft i lwyfan y Ganolfan, felly rhaid canolbwyntio ar ramp ar gyfer yr anabl.

75.2 Adroddiad Aled o gyfarfod Un Llais Cymru lle'r oedd Sue Simpson o'r Cyngor Sir yn awgrymu ardaloedd tywys (pilot areas) a throsglwyddo mwy o gyfrifoldebau i gynghorau tref a chymuned. Mae'r cynghorau hynny'n cael eu gosod mewn sefyllfa anodd, yntau maent yn derbyn y cyfrifoldebau ychwanegol neu eu colli. Anogodd Aled i fwy o'r cynghorwyr fynychu'r cyfarfod nesaf ym Machynlleth ar 22ain Ebrill.

75.3 Adroddiad Aled o gyfarfod llywodraethwyr yr ysgolion. Adroddiad foddhaol iawn o ganlyniad i arolwg Estyn yn ysgol Glantwymyn, ond i gynnal yr adoddau a'r staff presennol yn yr ysgol, bydd yn ofynnol dod at y Cyngor Cymuned i geisio am gefnogaeth ariannol.

75.4 Adroddiad Gwenfair o'r fforwm iechyd leol. Pan mae adrannau gofal brys mewn ardaloedd gwledig yn cau a nifer y gwelyau'n lleihau, mae'n naturiol fod y pwysau ychwanegol yn mynd ar ysbyty Bronglais. Nid yw dyfodol Bronglais mor sicr ag y bu gan fod y Gweinidog Iechyd yn llusgo'i draed ac yn tueddu i ganolbwyntio ar ysbytai De Cymru. Yn ddiweddar mae sganiwr arbennig wedi mynd i Glangwili yn hytrach na Bronglais.

**76. Unrhyw fater arall.**

76.1 Hysbyseb yn y Blewyn Glas am ofalwr i'r ddwy fynwent sy'n perthyn i'r Cyngor.

76.2 Diben y camerău ger Tynrhos Glantwymyn i'w galluogi'r heddlu ddarllen rhifau cerbydau. Mae hyn yn dilyn diddymu'r system drwyddedu.

76.3 Atgoffa'r adran briffyrdd fod arwydd ger yr fynedfa i'r A470 ym mhentref Cwmlline yn rhwystro gweledIad rhai modurwyr.

76.4 Y clerc i geisio olrhain y sawl sy'n gyfrifol am Brookville, Cwmlline ynglyn â'r coed sy'n tyfu'n beryglus o'r tir ac sy'n effeithio ar weledIad y drafnidiaeth.

76.5 Sbwriel mewn cilfannau ac ochrau'r ffyrdd yn gwaethygu a dim yn cael eu wneud yn ei gylch.

76.6 Er i Potters gau ym Machynlleth mae tipio anghyfreithlon wedi cynyddu yn barod. Y clerc i dynnu sylw'r Cyngor Sir i ddau safle.

76.7 Angen i'r lori halen fynd trwy Ceinws a Chwmlline.

76.8 Angen ysgubwr ar ffordd Cwm Ffrydlan a Chwm Seion yn Llanwrin

76.9 Y broblem ddraenio ger Glandyfi ar ffordd Llanwrin yn dal heb ei datrys.

Nid oedd mater arall

**Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 26ain Chwefror 2015.**

At the January meeting Mr Paul Hughes, Minffordd, Glantwymyn was welcomed as the newly co-opted member for the Darowen Ward.

The County Council wish to start negotiating the transfer of responsibility of the public conveniences at Cemaes to Glantwymyn Community Council or close them down. Before any commitment is made, it was agreed to invite a representative to explain in more detail the extra financial responsibilities.

During the meeting it was revealed that fly tipping, lay-bye and roadside litter is on the increase and those depositing it show little respect for the countryside and should be penalised.